# Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin

# Adroddiad Blynyddol 2024



sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

**Cynnwys** **Tudalen**


| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|
| Rhagair i'r Adroddiad Blynyddol | 2 |
| Sylwadau gan yr Ysgrifennydd | 3 |
| Rhagarweiniad | 4 |
| Dyddiadur Cyfarfodydd | 5 |
| Siaradwyr Gwadd | 5 |
| Monitro a Chraffu | 6 |
| Y Prif Faterion a Ystyriwyd gan y Fforwm Mynediad Lleol | 7 |
| Ymgynghoriadau a Ystyriwyd gan y Fforwm Mynediad Lleol | 12 |
| Cynllun Gwaith Arfaethedig ar gyfer 2025 | 13 |
| Atodiadau | 14 |

## Rhagair i'r Adroddiad Blynyddol

Mae 2024 wedi bod yn flwyddyn gadarnhaol arall i'r Fforwm gan barhau â'r berthynas waith agos gyda'r tîm hawliau tramwy a adroddwyd yn adroddiad blynyddol 2023. Mae hefyd wedi bod yn wych gweld y Cynghorydd Aled Vaughan Owen yn mynychu nifer o gyfarfodydd y Fforwm ac mae ei bresenoldeb wedi cael ei werthfawrogi'n fawr gan yr aelodau.

Roedd y Fforwm yn cynnwys 12 aelod trwy gydol 2024, i gyd â'u diddordebau a'u meysydd arbenigedd amrywiol yn ymwneud â hawliau tramwy a mynediad i gefn gwlad. Mae rhestr o aelodau'r Fforwm yn ystod y flwyddyn, ynghyd â manylion ynghylch pwy oedd yn bresennol ym mha gyfarfod, wedi'i chynnwys yn Atodiad 1.

Roedd yn wych gweld 11 o wahanol siaradwyr gwadd / ymgynghorwyr yn mynychu cyfarfodydd y Fforwm trwy gydol y flwyddyn i ofyn am gymorth y Fforwm / darparu cyngor ar bynciau penodol sy'n berthnasol i'r Fforwm.

Ystyriodd y Fforwm Mynediad Lleol 26 o bynciau gwahanol ac ystyriodd 5 ymgynghoriad yn ystod 2024 ar ystod eang o faterion fel yr amlinellir yn yr adroddiad hwn. Mae hyn yn dangos bod y Fforwm wedi bod yn rhan o edrych ar nifer fawr o eitemau, eu trafod a chynghori arnynt drwy gydol y flwyddyn.

Mae'r Fforwm wedi nodi'r difrod sylweddol a achoswyd i'r rhwydwaith hawliau tramwy ac yn enwedig Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru, a reolir gan Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC), gan storm Daragh ym mis Rhagfyr 2024 a bydd yn parhau i fonitro gweithrediadau adfer yn dilyn storm drwy gydol 2025. Mae'r storm wedi tynnu sylw at lawer o faterion, a gobeithio y gellir datrys y rhain yn y dyfodol.

Yn ystod 2024 bu'r Fforwm yn monitro gwybodaeth am gyflwr y rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus a ddarperir gan Dîm Mynediad i Gefn Gwlad Sir Gaerfyrddin.

Roedd y duedd gyffredinol trwy gydol 2024 i raddau helaeth heb newid o gymharu â'r blynyddoedd blaenorol, gan ddangos cynnydd cyson mewn problemau a gofnodwyd yn ymwneud â materion cyfreithiol yn ogystal â chynnal a chadw. Mae'r Fforwm yn parhau i wylio'r niferoedd hyn gyda diddordeb ac mae'n ymwybodol y gallai'r rhain gynyddu ymhellach unwaith y bydd yr arolwg rhwydwaith wedi'i gwblhau. Mae'r Fforwm yn deall y bydd hyn yn rhoi set ddata fwy realistig ar gyfer cyflwr gwirioneddol y rhwydwaith hawliau tramwy yn y sir, ac yn galluogi'r awdurdod i ddatblygu ffordd strategol o wella'r rhwydwaith yn y dyfodol.

Bydd 2025 yn flwyddyn ddiddorol arall i'r Fforwm wrth ethol Fforwm newydd, parhau i fonitro'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy, y diddordeb parhaus ym mhrosiect Llwybr Dyffryn Tywi, gweithio ochr yn ochr â Chyngor Sir Caerfyrddin i ddatblygu strategaeth farchogaeth ar gyfer y Sir, canlyniadau'r arolwg rhwydwaith i'w trafod a thrafodaethau parhaus gyda'r Penaethiaid Gwasanaeth a'r Cynghorwyr ar faterion strategol a pholisi sy'n ymwneud â mynediad i gefn gwlad.

Carwn ddiolch i Caroline Ferguson, Jason Lawday, Alex Morgan a holl aelodau'r Tîm Hawliau Tramwy am eu hamser ac am eu cyngor i'r Fforwm fel ysgrifennydd/ymgynghorwyr dros y flwyddyn ddiwethaf.

Yn ogystal carwn ddiolch i holl aelodau'r Fforwm am eu hamser a'u harbenigedd i'r Fforwm.

**Mark Hadley**
**Cadeirydd - Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin**

**Sylwadau gan yr Ysgrifennydd**

Mae'r adroddiad hwn yn nodi cwblhau blwyddyn olaf tymor y Fforwm Mynediad Lleol presennol.

Yn ystod 2024 cynhaliwyd yr holl gyfarfodydd wyneb yn wyneb gyda rhai mynychwyr yn ymuno o bell - ni fyddent wedi gallu mynychu fel arall.

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn ffodus iawn i gael aelodau sydd ag arbenigedd helaeth mewn materion cefn gwlad ac rydym yn gwerthfawrogi eu cyngor cytbwys. Mae'r aelodau yn herio'r cyngor ac ar yr un pryd yn deall y pwysau o gyllidebau cyfyngedig, llwyth gwaith cynyddol a disgwyliadau uchel. Rydym yn diolch iddynt am eu hymrwymiad.

Mae'r Fforwm hefyd wedi elwa o gefnogaeth arsylwyr, ymgynghorwyr a siaradwyr, sydd wedi mynychu cyfarfodydd y Fforwm trwy gydol 2024 ac sydd wedi gwneud cyfraniad gwerthfawr i eitemau ar yr agenda.

Mae'r wybodaeth a'r sylwadau gan sefydliadau ac unigolion sydd wedi cefnogi'r Fforwm Mynediad Lleol wedi cynorthwyo'r Fforwm i gyflawni ei swyddogaeth ymgynghorol; mae'r awdurdod yn ddiolchgar i'r cyfranwyr hyn ac yn gobeithio y bydd y gefnogaeth werthfawr hon yn parhau.

Y flwyddyn nesaf byddwn yn dechrau'r broses recriwtio ar gyfer tymor nesaf ein Fforwm Mynediad Lleol. Rydym yn gobeithio gweld llawer o'n haelodau presennol yn dychwelyd i fod yn rhan o'r Fforwm eto ond hefyd yn gobeithio denu rhai aelodau newydd.

Yn olaf, hoffwn estyn diolch i'n Cadeirydd, Mark Hadley, a'n Dirprwy Gadeirydd, Karen Burch, sydd ill dau wedi cefnogi Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin ers amser maith ac yn dangos ymroddiad mawr i'w rolau ar y Fforwm.

**Caroline Ferguson**
**Rheolwr Mynediad i Gefn Gwlad ac Ysgrifennydd y Fforwm Mynediad Lleol**
**Cyngor Sir Caerfyrddin (CSC)**

**Rhagarweiniad**

Sefydlwyd Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin gyntaf gan Gyngor Sir Caerfyrddin, yr awdurdod penodi, ym mis Medi 2002 (gweler atodiad 3).

Mae'r Fforwm yn cwmpasu Sir Gaerfyrddin, ac eithrio'r rhan o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog gan fod Fforwm Mynediad Lleol y Parc yn gyfrifol am yr ardal honno (gweler Atodiad 4)

Mae'r adroddiad hwn, sy'n ofyniad statudol o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, yn cwmpasu'r gwaith a wnaed gan Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin rhwng Ionawr 2024 tan 15 Ionawr 2025, ail flwyddyn ei dymor o 3 blynedd.

Roedd y cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2025 i fod i gael ei gynnal ym mis Rhagfyr 2024 ond fe'i gohiriwyd yn anochel tan ddechrau mis Ionawr oherwydd y tarfu a achoswyd gan Storm Darragh – at ddibenion yr adroddiad byddwn yn dyfynnu cyfarfod olaf tymor y Fforwm Mynediad Lleol a ohiriwyd fel *14 Ionawr 2025-P*.

Bydd amryw bwrpasau i'r adroddiad blynyddol hwn, sef cyflwyno:

a) Crynodeb o waith y flwyddyn
b) Cynllun gwaith ar gyfer y flwyddyn i ddod - bydd y Fforwm a'r awdurdod penodi yn cytuno ar hyn, yn unol â rheoliad 16(2)(b).
   Fodd bynnag, efallai y bydd yn destun newid yn unol â blaenoriaethau a phwysau sy'n newid trwy gydol y flwyddyn.
c) Dogfen 'gyhoeddusrwydd'. Yn ôl statud mae'n rhaid i'r adroddiad blynyddol fod ar gael i'r cyhoedd ei ddarllen ac yn ddwyieithog, ac ar gael i'r cyhoedd ei brynu.

**Y Sefydliadau a gynrychiolir ar Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin**

Cyngor Sir Caerfyrddin
Aelod Cabinet Cyngor Sir Caerfyrddin
dros Drafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith
Cyfoeth Naturiol Cymru
Cymdeithas Ceffylau Prydain
Y Cerddwyr
Cycling UK
Cymdeithas y Lonydd Gwyrdd
Trail Rider's Fellowship

**Buddiannau a gynrychiolir ar Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin** Grwpiau Cerdded Lleol
Mynediad Anabledd/Symudedd Cyfyngedig
Twristiaeth
Y Sector Gwirfoddol
Tirfeddianwyr Preifat (tyddynwyr)

Beicio
Beicio Mynydd
Cadwraeth
Amgylcheddau Naturiol a Hanesyddol
Mynediad i Gerbydau Hamdden
Llesiant

**Dyddiadur Cyfarfodydd**

Cynhaliwyd yr holl gyfarfodydd yn bersonol, ac roedd unrhyw bresenoldeb o bell yn cael ei ddarparu trwy drefniant ymlaen llaw gyda'r ysgrifennydd.

Cynhaliwyd cyfarfodydd mewn dau leoliad gwahanol yn y Sir ac fe'u cynhaliwyd ar wahanol adegau ac ar wahanol ddiwrnodau o'r wythnos. Dechreuodd y dull hwn o amserlennu yn 2023 gan fod y fformat blaenorol o ddiwrnod ac amser sefydlog yn cyfyngu ar bresenoldeb.

1) 5 Mawrth 2024, 4pm - Canolfan Hamdden Caerfyrddin, Tre Ioan

2) 6 Mehefin 2024, 6pm – Canolfan Tywi, Llandeilo

3) 5 Medi 2024, 6pm – Canolfan Tywi, Llandeilo

4) 14 Ionawr 2025-P, 3pm (Gohiriwyd o 9 Rhagfyr 2024) – Canolfan Hamdden Caerfyrddin, Tre Ioan

**Siaradwyr Gwadd ac Ymgynghorwyr**

Estynnodd yr aelodau groeso i'r siaradwyr canlynol, a oedd i siarad ar y pynciau a nodir isod:

1) Christoff Fischer – Maer Tref Llandeilo

2) Kate Glanville – Cyngor Tref Llandeilo a Nofwyr Afon Tywi

3) Tony Loizou – Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin

4) Julie Sweet – Grŵp Cerdded Cilmaenllwyd

5) Neil Thomas - Uwch-reolwr Hamdden Awyr Agored Cyngor Sir Caerfyrddin (CSC)

6) Phillip Morgan - Cyfoeth Naturiol Cymru

7) Y Cynghorydd Aled Vaughan Owen - Aelod Cabinet Cyngor Sir Caerfyrddin dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd

8) Alex Morgan – Swyddog Prosiect Mynediad i Gefn Gwlad Cyngor Sir Caerfyrddin

9) Y Cynghorydd Edward Thomas – Aelod Cabinet Cyngor Sir Caerfyrddin dros Wasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith

10) Jason Lawday – Swyddog Mynediad i Gefn Gwlad CSC

11) Alan Richards – Grŵp Cerdded Pontarddulais

**Monitro a Chraffu**

Mae busnes rheolaidd y Fforwm yn ystod 2024 wedi cynnwys diweddariadau gan Dîm Mynediad i Gefn Gwlad y Cyngor, Tîm Hamdden Awyr Agored y Cyngor a Rheolwr Gweithrediadau CNC ar unrhyw faterion sy'n ymwneud â mynediad. Mae aelodau'n rhoi adborth ac yn gofyn ystod o gwestiynau. Yn y modd hwn, mae cynnydd a blaenoriaethau yn cael eu monitro gan aelodau a gellir gwneud penderfyniadau gwybodus mewn perthynas â rhoi cyngor.

Mae'r Fforwm yn darparu goruchwyliaeth strategol annibynnol dros waith mynediad cyhoeddus y cyngor. Er enghraifft, cynllunio a pharatoi prosiectau blynyddol i wella hawliau tramwy cyhoeddus, cyhoeddi adroddiadau chwarterol ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus, Gorchmynion Hawliau Tramwy Cyhoeddus, Ceisiadau Cynllunio (gyda goblygiadau mynediad) a Gorchmynion Rheoleiddio Traffig.

Caiff is-grwpiau i'r Fforwm eu creu lle mae angen trafodaeth fanylach ar bynciau penodol o fewn cylch gorchwyl y Fforwm. Mae canlyniadau allweddol cyfarfodydd is-grŵp yn cael eu bwydo'n ôl i'r Fforwm Mynediad Lleol ar gyfer gwybodaeth ac arsylwi ar y lefel strategol.

Gweithredodd dau is-grŵp i'r Fforwm Mynediad Lleol yn ystod 2024:

1) Grŵp Defnyddwyr Cilffyrdd - yn cynnwys aelodau'r Fforwm, Rheolwr Mynediad i Gefn Gwlad CSC, Rheolwr Hamdden a Mynediad CSC, Cydgysylltydd Cynnal a Chadw Hawliau Tramwy Cyhoeddus CSC a Rheolwr Gwasanaethau Priffyrdd a Thrafnidiaeth. Canolbwyntiodd yr is-grŵp ar rwydwaith Cilffyrdd a Ffyrdd Diddosbarth CSC, gan nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella a materion rheoli sydd angen craffu arnynt.

2) Is-grŵp Marchnata a Hyrwyddo Hawliau Tramwy Cyhoeddus - yn cynnwys aelodau'r Fforwm, Rheolwr Mynediad Cefn Gwlad y Cyngor a Swyddog Datblygu Twristiaeth y Cyngor. Mae'r is-grŵp yn edrych ar y gwaith presennol o hyrwyddo hawliau tramwy cyhoeddus a lle gellid ei newid, ei wella neu ei ddiweddaru.

**Y Prif Faterion a ystyriwyd gan y Fforwm Mynediad Lleol**

1. Pwnc a drafodwyd: **Adolygiad Canol Tymor Cynllun Gwella Hawliau Tramwy**
   Dyddiad(au) Trafod: 5 Mawrth 2024, 6 Mehefin 2024, 5 Medi 2024, 14 Ionawr 2025-P

Crynodeb: Ym mis Mawrth, rhoddodd y Fforwm wybod y byddai dogfen adolygu a gynhyrchwyd gan ymgynghoriaeth ac a gylchredwyd yn 2023 yn cael ei hail-fformatio gan Gyngor Sir Caerfyrddin i'w gwneud yn fwy cryno a hygyrch i'r darllenydd.
Dosbarthwyd y ddogfen ddiwygiedig i'r aelodau er mwyn cael sylwadau. Cytunwyd ar y dyddiad cau yng nghyfarfod mis Medi.
Ar ôl cymeradwyaeth unfrydol gan aelodau'r Fforwm, diweddariad yr ysgrifenyddiaeth a ddarparwyd yng nghyfarfod mis Ionawr, rhoddwyd gwybod i'r Fforwm bod cymeradwyaeth ffurfiol eto i ddigwydd, awgrymodd y Cadeirydd bod y Fforwm yn cyfathrebu er mwyn cyflymu cymeradwyaeth, cytunodd yr aelodau.

2. Pwnc a drafodwyd: **Adroddiadau ar Faterion Hawliau Tramwy Cyhoeddus**
   Dyddiad(au) Trafod: 5 Mawrth 2024, 6 Mehefin 2024, 5 Medi 2024, 14 Ionawr 2025-P

Crynodeb: Cynhyrchwyd adroddiadau ar nifer y materion sydd heb eu datrys ar gyfer materion cyfreithiol a materion cynnal a chadw cyn cyfarfodydd y Fforwm ym mis Mawrth, Mehefin a Medi, dadansoddwyd data am y materion, a thrafodwyd y canfyddiadau.
Ychydig o newid yn y tueddiadau cyffredinol, un newid a nodwyd yn adroddiad Mehefin lle sefydlogodd materion cynnal a chadw.
Disodlodd 'Adroddiadau Perfformiad' newydd adroddiadau ar faterion ar ddiwedd y flwyddyn, cyfle i aelodau wneud sylwadau ar fformat newydd. Cytunwyd i adolygu'r adroddiadau newydd ar ôl 1 flwyddyn i benderfynu pa mor ddefnyddiol ydynt.

3. Pwnc a drafodwyd: **Dynodiad Dyfroedd Ymdrochi Llandeilo**
   Dyddiad(au) Trafod: 5 Mawrth 2024, 6 Mehefin 2024

Crynodeb: Cyflwyniad gan siaradwyr gwadd yng nghyfarfod mis Mawrth ynghylch yr uchelgais i sicrhau Dynodiad Dyfroedd Ymdrochi i ran o Afon Tywi yn Nhref Llandeilo.
Amlinellodd y cyflwynwyr feini prawf glendid cyfreithiol i'w bodloni i gyflawni a chynnal dynodiad. Derbyniwyd 499 o ymatebion cadarnhaol i'r ymgynghoriad ond dim cefnogaeth CSC na Thirfeddiannwr ar hyn o bryd.
Sesiwn holi ac ateb ar ôl cyflwyniad. Cynghorodd Cadeirydd y Fforwm, unwaith y bydd yr adran gyfrifol yn CSC am symud y cynnig ymlaen yn cael ei nodi, y bydd y Fforwm yn ystyried nodyn cyngor yn seiliedig ar farn gyfunol yr aelodau.
Cynigiodd yr Aelod Cabinet (y Cynghorydd Edward Thomas) gynorthwyo i benderfynu ar gyfrifoldeb adrannol.

4. Pwnc a drafodwyd: **Diweddariadau Prosiect Hawliau Tramwy Cyhoeddus**

Dyddiad(au) Trafod: 5 Mawrth 2024, 6 Mehefin 2024, 5 Medi 2024, 14 Ionawr 2025-P

Crynodeb: Darparodd Swyddog Prosiect CSC ddiweddariadau o ran y prosiect Hawliau Tramwy Cyhoeddus ym mhob cyfarfod. Roedd y manylion a ddarparwyd mewn perthynas â phrosiectau gwella yn cynnwys nifer yr eitemau dodrefn a osodwyd, nifer y materion a ddatryswyd, a nifer y llwybrau a agorwyd.
Rhoddwyd diweddariadau ar y prosiect arolwg rhwydwaith gwirfoddolwyr parhaus. Nodwyd nifer y gwirfoddolwyr sydd wedi eu cofrestru a'u hyfforddi ac y neilltuwyd llwybrau iddynt yn ogystal â nifer y cilomedrau a arolygwyd yn llwyddiannus. Rhannwyd cyfleoedd cyllido yn y dyfodol ar gyfer y prosiect gwirfoddoli hefyd.
Barn gadarnhaol iawn ymhlith aelodau'r Fforwm ar gyfer cynyddu gwaith seiliedig ar brosiectau; fodd bynnag, tynnwyd sylw at yr angen i aelodau'r Fforwm gadw gorchwyl gwylio agos ar brosiectau arfaethedig, fel y gellir rhannu gwybodaeth ymhlith aelodau gyda CSC, gan wneud y mwyaf o effaith gadarnhaol pob cynllun.
Mae aelodau'r Fforwm wedi cael cyfle i wneud awgrymiadau prosiect i swyddog prosiect.

5. Pwnc a drafodwyd: **Cyfarfod Pennaeth Gwasanaeth**
Dyddiad(au) Trafod: 5 Mawrth 2024

Crynodeb: Cynhaliwyd un cyfarfod Pennaeth Gwasanaeth yn 2024 (Chwefror). Trafodaeth gadarnhaol, yn enwedig ynghylch diffinio rôl y Fforwm Mynediad Lleol gyda nifer o gamau y cytunwyd arnynt gan gynnwys gwella ymgysylltiad y Fforwm a sianeli priodol ar gyfer cyngor ffurfiol gan y Fforwm Mynediad Lleol. Y cyfarfod nesaf eto i'w drefnu.

6. Pwnc a drafodwyd: **Cofrestru Hawliau Tramwy Cyhoeddus – Creu Map Diffiniol**
Dyddiad(au) Trafod: 5 Mawrth 2024

Crynodeb: Rhoddwyd cyflwyniad i'r Fforwm Mynediad Lleol i wella dealltwriaeth aelodau o'r broses gofrestru Hawliau Tramwy Cyhoeddus a gynhaliwyd ar ddechrau'r 1950au a arweiniodd at y Map a Datganiad Diffiniol Sir Gaerfyrddin a gyhoeddwyd yn derfynol ym 1968.

7. Pwnc a drafodwyd: **Strategaeth Farchogaeth CSC**
Dyddiad(au) Trafod: 5 Mawrth 2024, 5 Medi 2024, 14 Ionawr 2025-P

Crynodeb: Fforwm Mynediad Lleol yn cael y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y strategaeth ym mhob cyfarfod hyd at gwblhau'r drafft ym mis Tachwedd 2024. Strategaeth Ddrafft wedi'i dosbarthu i'r aelodau ar gyfer sylwadau. Rhoddwyd gwybod i'r Fforwm fod fersiwn derfynol y ddogfen i'w chyflwyno yn y cyfarfod cymeradwyo cyntaf yn gynnar yn 2025.

8. Pwnc a drafodwyd: **Cyfleoedd Cyllido Mynediad a Hawliau Tramwy Cyhoeddus**
Dyddiad(au) Trafod: 5 Mawrth 2024, 6 Mehefin 2024, 5 Medi 2024

Crynodeb: Mae'r aelodau wedi nodi'r effaith gadarnhaol y mae penodi Swyddog Prosiect pwrpasol wedi'i chael ar dîm Mynediad i Gefn Gwlad, yn enwedig o ran sicrhau cyllid priodol. Tynnwyd sylw unwaith eto at bwysigrwydd hyrwyddo, gan dynnu sylw at y gwaith da sy'n cael ei wneud.
Rhoddwyd gwybod i'r aelodau ym mis Mehefin bod cydweithio yn rhan annatod o gyfleoedd cyllido cyfredol, a bod chwilio am bosibiliadau i gydweithio yn allweddol i geisiadau llwyddiannus. Croesawyd awgrymiadau am gyllid a chyfleoedd gan yr aelodau.

9. Pwnc a drafodwyd: **Defnyddio Llwybr Beicio**
Dyddiad(au) Trafod: 5 Mawrth 2024, 5 Medi 2024, 14 Ionawr 2025-P

Crynodeb: Trafodaeth ynghylch sefyllfa gyfreithiol beicwyr sy'n defnyddio llwybrau troed yn parhau, dim newid yn sefyllfa CSC.

10. Pwnc a drafodwyd: **Llwybr Dyffryn Tywi**
Dyddiad(au) Trafod: 5 Mawrth 2024, 5 Medi 2024

Crynodeb: Mae'r Fforwm wedi cadw gorchwyl gwylio ar gynnydd Llwybr Dyffryn Tywi, gan dderbyn y wybodaeth ddiweddaraf am y cam prynu gorfodol a'r amserlen adeiladu / gwario sy'n gysylltiedig â'r prosiect mynediad pwysig hwn.

11. Pwnc a drafodwyd: **Cofrestr Gorchymyn Addasu Map Diffiniol CSC**
Dyddiad(au) Trafod: 5 Mawrth 2024

Crynodeb: Codwyd cwestiwn gan aelod o'r fforwm ynglŷn â'r llwyth gwaith o ran y Gorchymyn Addasu Mapiau Diffiniol yn Sir Gaerfyrddin. Cafodd aelodau'r fforwm y wybodaeth ddiweddaraf am statws cofrestr Gorchmynion Addasu Mapiau Diffiniol Sir Gaerfyrddin a ble y gellir ei gweld. Cynghorwyd aelodau hefyd sut y gallant adolygu Gorchmynion Addasu Mapiau Diffiniol anffurfiol nad ydynt wedi'u cynnwys ar y gofrestr.

12. Pwnc a drafodwyd: **Cynrychiolaeth Aelodau'r Cabinet**
Dyddiad(au) Trafod: 6 Mehefin 2024

Crynodeb: Yn ail gyfarfod y flwyddyn, cyflwynwyd aelodau'r fforwm i'r Aelod Cabinet newydd (dros Newid yn yr Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd) sydd bellach yn gyfrifol am Hawliau Tramwy Cyhoeddus. Rhywfaint o ddryswch mewn perthynas â'r newid, gan wahanu Hawliau Tramwy Cyhoeddus oddi wrth weddill swyddogaeth Priffyrdd Sir Gaerfyrddin. Darparwyd rhesymeg ac eglurhad. Sicrwydd y byddai'r Aelod Cabinet dros Briffyrdd yn dal i ymgysylltu â'r Fforwm ac yn mynychu cyfarfodydd pan fo'n bosibl.

13. Pwnc a drafodwyd: **Adroddiad Blynyddol y Fforwm Mynediad Lleol**
Dyddiad(au) Trafod: 5 Mawrth 2024, 6 Mehefin 2024, 5 Medi 2024

Crynodeb: Fforwm Mynediad Lleol yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd o ran yr adroddiad blynyddol ym mhob cyfarfod hyd at gwblhau'r drafft ym mis Awst 2024. Strategaeth Ddrafft wedi'i dosbarthu i'r aelodau ar gyfer sylwadau gyda'r dyddiad cau o 13 Medi 2024 wedi'i gytuno.
Mae aelodau'r Fforwm yn falch o weld yr adroddiad wedi'i gwblhau gan nad yw llawer o Awdurdodau Lleol yn bodloni'r rhwymedigaeth hon.
Dogfen derfynol yn aros am gymeradwyaeth y Pennaeth Gwasanaeth a'r Aelod Cabinet.

14. Pwnc a drafodwyd: **Strategaeth Ailstrwythuro a Hamdden CNC**
Dyddiad(au) Trafod: 6 Mehefin 2024, 5 Medi 2024

Crynodeb: Codwyd pryder ynglŷn â dechrau ailstrwythuro CNC lle mae'n debyg y bydd swyddi yn cael eu gwaredu/lleihau. I ddwysau'r pryder roedd yn ymddangos bod cyfeiriad strategol newydd y sefydliad yn symud oddi wrth fynediad fel blaenoriaeth. Fforwm Mynediad Lleol i gadw gorchwyl gwylio agos gan sicrhau eu bod yn rhan o unrhyw ymgynghori ar faterion a allai effeithio ar Sir Gaerfyrddin.

15. Pwnc a drafodwyd: **Is-grŵp Hyrwyddo a Thwristiaeth**
Dyddiad(au) Trafod: 6 Mehefin 2024, 5 Medi 2024

Crynodeb: Parhaodd yr is-grŵp i weld canlyniadau cadarnhaol drwy 2024 gyda gwelliant yn y broses o hyrwyddo cyfleoedd mynediad yn Sir Gaerfyrddin.

16. Pwnc a drafodwyd: **Rali Ceredigion**
Dyddiad(au) Trafod: 6 Mehefin 2024, 5 Medi 2024

Crynodeb: Rhannodd yr aelodau farn ar ddigwyddiad y Rali a phwysigrwydd ymwybyddiaeth i ddefnyddwyr mynediad, bydd y cysylltiadau yn cael eu hysbysu. Holiadur dilynol wedi'i gyhoeddi gan grŵp twristiaeth lleol i bennu effaith y digwyddiad yn yr ardal.

17. Pwnc a drafodwyd: **Bae Parcio Ceffylau Pen-bre**
Dyddiad(au) Trafod: 6 Mehefin 2024, 5 Medi 2024

Crynodeb: Roedd y mater parhaus ynglŷn â darpariaeth parcio ffurfiol ar gyfer marchogwyr ym Mhen-bre yn parhau i fod yn destun trafodaeth i aelodau'r Fforwm. Gorchymyn Traffig sy'n caniatáu bae parcio pwrpasol wedi'i gwblhau ym mis Gorffennaf 2024. Codwyd pryderon ym mis Medi mewn perthynas â chyfathrebu gwael ar fathau o drwyddedau a chymhwysedd parcio, adroddwyd yn ôl i'r Tîm Rheoli Parcio.

18. Pwnc a drafodwyd: **Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol**
Dyddiad(au) Trafod: 5 Medi 2024

Crynodeb: Rhoddwyd gwybod i aelodau'r Fforwm am Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol sydd ar ddod, a chawsant eu hannog i ystyried pleidleisio dros sefydliadau mynediad ar gyfer y Bwrdd, sy'n cefnogi'r agenda mynediad.

19. Pwnc a drafodwyd: **Is-grŵp Defnyddwyr Cilffyrdd (BUG)**
Dyddiad(au) Trafod: 5 Mawrth 2024

Crynodeb: Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod y prif bwnc a oedd i'w drafod yn BUG – Gorchmynion Rheoleiddio Traffig Byw ar Gilffyrdd a Ffyrdd Diddosbarth – yn dal i aros am restr lawn o Orchmynion byw. Gwybodaeth i'w chyflwyno i'r Fforwm Mynediad Lleol ar ôl ei derbyn a'i hadolygu gan yr is-grŵp.

20. Pwnc a drafodwyd: **Polisi Codi Tâl Celfi Hawliau Tramwy Cyhoeddus**
Dyddiad(au) Trafod: 5 Mawrth 2024, 6 Mehefin 2024

Crynodeb: Rhoddodd aelodau'r Fforwm wybod i CSC y dylid sicrhau bod Polisi Codi Tâl ar gael i'w weld ar-lein fel enghraifft o newid cadarnhaol mewn arferion gwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus. Polisi wedi'i gyhoeddi ar-lein erbyn diwedd 2024.

21. Pwnc a drafodwyd: **Staffio Hawliau Tramwy Cyhoeddus**
Dyddiad(au) Trafod: 5 Mawrth 2024

Crynodeb: Penodwyd 3 aelod newydd i'r tîm Mynediad i Gefn Gwlad yn gynnar yn 2024 gan ddarparu mwy o gapasiti o ran cynnal a chadw a chyfle i wneud mwy o welliannau ar sail prosiectau i'r rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus. Croesawyd y newyddion hwn gan aelodau'r Fforwm.

22. Pwnc a drafodwyd: **Prosiect Gwella Hawliau Tramwy Cyhoeddus Cilmaenllwyd**
Dyddiad(au) Trafod: 5 Mawrth 2024

Crynodeb: Cyflwynodd arweinydd prosiect Grŵp Cerdded Cilmaenllwyd eu prosiect gwella Hawliau Tramwy Cyhoeddus Cymunedol, a ariennir drwy grant a sicrhawyd gan y Gymuned eu hunain. Cytunodd yr aelodau ei fod yn enghraifft wych o'r hyn y gellir ei gyflawni gan fenter gymunedol.

23. Pwnc a drafodwyd: **Creu Llwybr Cerdded 20km Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)**
Dyddiad(au) Trafod: 5 Mawrth 2024

Crynodeb: Rhoddodd aelodau'r Fforwm wybod fod y llwybr cerdded 20km a ddatblygwyd gan CNC ar draws Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru, wedi'i gwblhau ac yn aros am ddyddiad lansio ffurfiol, i'w rannu gyda'r Fforwm Mynediad Lleol.

24. Pwnc a drafodwyd: **Treth Dwristiaeth Cymru**
Dyddiad(au) Trafod: 14 Ionawr 2025-P

Crynodeb: Pwnc wedi'i godi gan aelodau ond yn absenoldeb penderfyniad Llywodraeth Cymru, trafodaeth fanwl ar gyfleoedd tebygol yn amhosibl. Bu'r Aelodau yn dyfalu ynghylch buddion buddsoddiad lleol a chyllid wedi'i neilltuo ar gyfer mynediad a allai godi o ganlyniad i'r dreth. Y Fforwm Mynediad Lleol i gadw gorchwyl gwylio.

25. Pwnc a drafodwyd: **Effaith Stormydd Mawr ar Fynediad a Hawliau Tramwy Cyhoeddus**
Dyddiad(au) Trafod: 14 Ionawr 2025-P

Crynodeb: Codwyd goblygiadau mynediad amlwg yn dilyn stormydd Darragh ac Eowyn gan aelodau'r Fforwm i'w trafod. Difrod trychinebus ar draws Ystâd Coetir Llywodraeth Cymru a'r amser y bydd yn ei gymryd i glirio yn achos o bryder difrifol. Mae difrod sylweddol ar draws rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn cael goblygiadau i gyllidebau cynnal Hawliau Tramwy Cyhoeddus, dylid defnyddio'r Gronfa Atgyweirio Brys yn dilyn Stormydd i osgoi colli cyllidebau refeniw.

26. Pwnc a drafodwyd: **Penodi'r Fforwm Mynediad Lleol nesaf**
Dyddiad(au) Trafod: 14 Ionawr 2025-P

Crynodeb: Amlinellodd ysgrifenyddiaeth y Fforwm Mynediad Lleol amserlen ar gyfer recriwtio'r Fforwm Mynediad Lleol nesaf, targed ar gyfer cyfarfod 1af y Fforwm Mynediad Lleol newydd - Ebrill 2025.

**Ymgynghoriadau a ystyriwyd gan y Fforwm Mynediad Lleol**

1) Gorchmynion Llwybrau Cyhoeddus a Gorchmynion Addasu Mapiau Diffiniol
Crynodeb: Mae'r aelodau'n parhau i adolygu a rhoi sylwadau ar ymgynghoriadau o ran y Gorchymyn Llwybrau Cyhoeddus a'r Gorchymyn Addasu Mapiau Diffiniol a gyhoeddwyd gan y Tîm Mynediad i Gefn Gwlad

2) Ceisiadau Cynllunio
Crynodeb: Mae'r aelodau'n parhau i adolygu a rhoi sylwadau ar ymgynghoriadau Cynllunio a gyhoeddwyd gan y Tîm Mynediad i Gefn Gwlad lle mae goblygiadau posibl ar gyfer mynediad i'r cyhoedd.

3) Ymgynghoriad ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS)
Crynodeb: Ymateb y Fforwm Mynediad Lleol cenedlaethol wedi'i gyflwyno i'r ymgynghoriad. Ni chododd aelodau Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin eitemau penodol i'w cynnwys mewn ymateb gan Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin, felly ni anfonwyd ymateb gan Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin.

4) Ymgynghoriad Cwympo Coed CNC (6 Mehefin 2024)
Crynodeb: Gofynnodd y Cadeirydd am ymgynghori â Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin fel rhanddeiliaid. Ni dderbyniwyd ymgynghoriad cyn diwedd tymor y Fforwm.

5) Ymgynghoriad Teithio Llesol (14 Ionawr 2025-P)
Crynodeb: Nid oedd aelodau'r Fforwm yn gweld gwerth yng nghynigion cynllun Teithio Llesol Llanymddyfri; mwy o fudd mewn ardaloedd trefol. Ymateb ffurfiol gan Gadeirydd y Fforwm.
Mae aelodau'n deall bod model Teithio Llesol yn gweld newid gyda gostyngiad tebygol mewn cyllid.

**Cynllun Gwaith Arfaethedig ar gyfer 2025**

Bydd rhaglen waith y Fforwm Mynediad Lleol yn y flwyddyn nesaf yn edrych yn fanwl ar y materion canlynol:

1) Gwaith Ymgysylltu'r Fforwm Mynediad Lleol – parhau â'r trafodaethau gyda'r Pennaeth Gwasanaeth ac Aelodau'r Cabinet i ysgogi gwell ymgysylltu gan y Cyngor Sir â'r Fforwm.
2) Adolygiad Canol Tymor Cynllun Gwella Hawliau Tramwy – cwblhau'r ddogfen i'w gweithredu
3) Strategaeth Farchogaeth – cwblhau'r ddogfen i'w gweithredu
4) Prosiect Arolwg Rhwydwaith Gwirfoddolwyr - gorchwyl gwylio, rhoi sylwadau/cymorth yn ôl yr angen
5) Cynigion Teithio Llesol - gorchwyl gwylio, darparu cyngor ffurfiol yn ôl yr angen
6) Gorchmynion Addasu Llwybrau Beicio – adolygu a rhoi sylwadau ar gynigion wrth i ddogfennau ymgynghori gael eu cyhoeddi. Rhoi cyngor ar y broses fel y gwelir yn angenrheidiol.
7) Diwygio Mynediad Llywodraeth Cymru – gorchwyl gwylio, darparu cyngor ffurfiol yn ôl yr angen
8) Cynigion ffermio cynaliadwy Llywodraeth Cymru – gorchwyl gwylio, rhoi cyngor ffurfiol yn ôl yr angen
9) Gorchmynion Rheoleiddio Traffig Parhaol Byw ar draws y Rhwydwaith Priffyrdd a Hawliau Tramwy Cyhoeddus – ceisio manylion llawn drwy'r Grŵp Defnyddwyr Cilffyrdd ac adolygu llwybrau a fyddai'n cael eu cau.
10) Prosiectau Gwella Hawliau Tramwy – monitro ac adolygu prosiectau a gynlluniwyd ar gyfer ac a gyflawnwyd trwy 2024.
11) Cyllid Grant Gwella Mynediad - adolygiad o'r defnydd.
12) Dyfarniad cyllid Grant Gwella Mynediad sydd ar ddod - adolygu'r defnydd arfaethedig
13) Cyllid allanol ar gyfer gwaith hawliau tramwy – tynnu sylw at gyfleoedd a'u trafod.
14) Adroddiadau materion/perfformiad Hawliau Tramwy Cyhoeddus - adolygu, asesu a chynnig sylwadau parhaus.
15) Effaith Stormydd Mawr ar Fynediad - gorchwyl gwylio ar adfer mynediad a datblygu polisi, darparu cyngor ffurfiol yn ôl yr angen
16) Llwybr Dyffryn Tywi - gorchwyl gwylio ar yr hyn a gyflawnir yn 2025-26.
17) Treth Dwristiaeth Cymru - gorchwyl gwylio, darparu cyngor ffurfiol yn ôl yr angen

# Atodiadau

**Atodiad 1 - Manylion Aelodaeth / Recriwtio**

Yn unol â Rheoliad 3 o Reoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Fforwm Mynediad Lleol) (Cymru) 2001, caiff holl aelodau'r Fforwm eu penodi am dair blynedd o ddyddiad y cyfarfod cyntaf o bob tymor o dair blynedd. Dechreuodd tymor tair blynedd presennol y Fforwm Mynediad Lleol ar 13 Rhagfyr 2021, mae'r tabl isod yn rhestru aelodaeth y Fforwm trwy 2023.

| Enw | Swydd | Buddiannau | Dyddiad Penodi |
|---|---|---|---|
| Mark Hadley | Cadeirydd | Cerdded, Hawliau Tramwy Cyhoeddus i Gerbydau, Twristiaeth, Tirfeddiannwr | 13/12/2021 |
| Karen Burch | Dirprwy Gadeirydd | Ceffylau (Cadeirydd Marchogion Sir Gaerfyrddin ac Aelod o Gymdeithas Ceffylau Prydain) Hanes Lleol | 13/12/2021 |
| Caroline Ferguson | Ysgrifennydd | Ddim yn berthnasol | 13/12/2021 |
| Jillie Gardiner | Aelod | Twristiaeth, Ceffylau, Tirfeddiannwr | 13/12/2021 |
| Dave Gravelle | Aelod | Beicio a Mynediad i Gerbydau Hamdden, Twristiaeth | 13/12/2021 |
| David Stacey | Aelod | Beicio, Cerdded | 13/12/2021 |
| Peter Griffiths | Aelod | Beicio, Anabledd/Symudedd | 13/12/2021 |
| Phil Snaith | Aelod | Cerdded, Beicio, Mynediad i'r Anabl | 13/12/2021 |
| Sean Brown | Aelod | Cerdded, Beicio Mynydd, Beicio Modur ar Lwybrau | 13/12/2021 |
| Richard Leggett | Aelod | Cerdded (Aelod o Gymdeithas y Cerddwyr) | 13/12/2021 |
| Mo Rapley | Aelod | Hawliau Tramwy Cyhoeddus i Gerbydau (Aelod o TRF) | 13/12/2021 |
| Wyn Owen | Aelod | Cymdeithas y Cerddwyr, Sgowtiaid, Dug Caeredin | 13/12/2021 |
| Tara-Jane Sutcliffe | Aelod | Hawliau Tramwy Cyhoeddus, Cadwraeth, Amgylcheddau Naturiol a Hanesyddol | 13/12/2021 |

Ni etholwyd unrhyw aelodau newydd i'r Fforwm Mynediad Lleol yn ystod 2024

**Atodiad 2 – Presenoldeb yng Nghyfarfodydd y Fforwm Mynediad Lleol**

Cofnod presenoldeb yr aelodau ar gyfer 2023.

| Enw | 05/03/24 | 06/06/24 | 05/09/24 | 14/01/25 | Canran Presenoldeb |
|---|---|---|---|---|---|
| Mark Hadley (Cadeirydd) | Y | Y | Y | Y | 100% |
| Karen Burch (Dirprwy Gadeirydd) | A | Y | Y | A | 50% |
| Caroline Ferguson (Ysgrifennydd) | Y | Y | Y | Y | 100% |
| Jillie Gardiner | Y | Y | Y | Y | 100% |
| Dave Gravelle | Y | A | Y | Y | 75% |
| David Stacey | A | Y | A | Y | 50% |
| Peter Griffiths | A | Y | Y | Y | 75% |
| Phil Snaith | Y | Y | A | Y | 75% |
| Sean Brown | Y | Y | Y | Y | 100% |
| Richard Leggett | Y | Y | A | Y | 75% |
| Mo Rapley | Y | Y | A | A | 50% |
| Wyn Owen | A | Y | Y | Y | 75% |
| Tara-Jane Sutcliffe | N | N | Y | A | 25% |

<u>Allwedd</u>

Y Yn bresennol yn y cyfarfod
A Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb
N Nid oedd yn bresennol yn y cyfarfod ac ni dderbyniwyd ymddiheuriadau

**Atodiad 3 – Manylion yr Awdurdod Penodi**

Enw'r Awdurdod Penodi: Cyngor Sir Caerfyrddin


Ardal a gwmpesir gan y Fforwm Mynediad Lleol: Sir Gaerfyrddin gyfan ac eithrio Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Ysgrifennydd: Caroline Ferguson, Rheolwr Mynediad i Gefn Gwlad, Uned Hamdden a Mynediad Cefn Gwlad, Cyngor Sir Caerfyrddin, Parc Coetir y Mynydd Mawr, Heol Hirwaun Olau, Y Tymbl, Sir Gaerfyrddin SA14 6HU.

Ffôn: 01554 742216 (est 2216)

E-bost: prow@sirgar.gov.uk

**Atodiad 4 – Map o Ardal y Fforwm Mynediad Lleol**




<u>Allwedd</u>

Ardal wedi'i hamgylchynu mewn coch = Sir Gaerfyrddin
Ardal wedi'i hamgylchynu mewn melyn = Rhan o'r Sir sydd ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
(nid yw'n cael ei chwmpasu gan Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin)

**Atodiad 5 – Rhestr Ddosbarthu Adroddiad Blynyddol y Fforwm Mynediad Lleol**

1. Gwefan Cyngor Sir Caerfyrddin
2. Llyfrgelloedd Cyngor Sir Caerfyrddin
3. Canolfannau Hwb Cyngor Sir Caerfyrddin
4. Cynghorau Tref a Chymuned
5. Aelodau Lleol Cyngor Sir Caerfyrddin
6. Prif Weithredwr a Chyfarwyddwyr CSC
7. Cymdeithas Twristiaeth Sir Gâr
8. Cymdeithas y Cerddwyr Ceredigion
9. Cymdeithas y Cerddwyr Penfro
10. Cymdeithas y Cerddwyr Llanelli
11. Cymdeithas y Cerddwyr Dinefwr
12. Cymdeithas y Cerddwyr Caerfyrddin a'r Cylch
13. Cymdeithas y Cerddwyr Llanbedr Pont Steffan
14. Cymdeithas Ceffylau Prydain
15. Cymdeithas y Lonydd Gwyrdd
16. Treadlightly
17. Trail Riders Fellowship
18. Welsh Trail Riders Association
19. Auto Cycle Union
20. British Motorcyclists Association
21. Sustrans Cymru
22. Cyfoeth Naturiol Cymru
23. Undeb Amaethwyr Cymru
24. Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr
25. Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
26. Cymdeithas Mannau Agored
27. Ymddiriedolaeth Cilffyrdd a Llwybrau Ceffylau
28. Cymdeithas Gyrru Prydain (British Driving Society)
29. Clwb Teithiau i Feicwyr (Cyclists Touring Club)
30. LARA (Cymdeithas Hamdden a Mynediad i Dir)
31. Canŵ Cymru
32. Fforwm Mynediad Lleol Bannau Brycheiniog
33. Fforwm Mynediad Lleol Sir Benfro
34. Fforwm Mynediad Lleol Ceredigion
    Fforwm Mynediad Lleol Powys
35. Fforwm Mynediad Lleol Castell-nedd a Phort Talbot
36. Fforwm Mynediad Lleol Abertawe

**Atodiad 6 – Darllen Pellach**

Adroddiadau Blynyddol y Fforwm Mynediad Lleol

Mae'n ofynnol yn ôl statud i bob awdurdod penodi lunio adroddiadau blynyddol. Gellir cael copi ohonynt gan Ysgrifennydd y Fforwm perthnasol. Mae agendâu, cofnodion a phapurau eraill ar gyfer cyfarfod unigol y Fforwm hefyd ar gael:
[Fforwm Mynediad Lleol (llyw.cymru)]

Deddf y Llywodraeth

Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000
The Stationery Office Ltd (2000).
[Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (legislation.gov.uk)]

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Fforymau Mynediad Lleol ) (Cymru) 2001;
The Stationery Office Limited (2002).
[Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Fforymau Mynediad Lleol) (Cymru) 2001 (legislation.gov.uk)]

Canllawiau ynghylch Hawliau Tramwy Cyhoeddus ar gyfer Awdurdodau Lleol (Hydref 2016)
[Canllawiau ynghylch Hawliau Tramwy Cyhoeddus ar gyfer Awdurdodau Lleol - Hydref 2016 (llyw.cymru)]

Cyfoeth Naturiol Cymru

Cyfarwyddyd ar gyfer Fforwm Mynediad Lleol 1: Sefydlu Fforymau Mynediad Lleol – Cyngor a Chyfarwyddyd Arferion Da (2002).
Cyfarwyddyd ar gyfer Fforwm Mynediad Lleol 2: Swyddogaeth, Dyletswyddau a Phwrpas Fforymau Mynediad Lleol (2002)